**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: SF/LG/0047/11

Rosemary Butler AM
Presiding Officer
Welsh Government
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

29 June 2011

Dear / Annwyl Rosemary.

**The Plastic Kitchenware (Conditions on Imports from China) (Wales) Regulations 2011**

I am writing to inform you that in order to bring the Plastic Kitchenware (Conditions on Imports from China) (Wales) Regulations 2011 into force in Wales it has become necessary to breach the 21-day rule. This order will be made on 29 June and will come into force on 1 July 2011.

These Regulations will provide for the execution and enforcement, in Wales, of the provisions of Commission Regulation (EU) No. 284/2011 which was published in the Official Journal on 23 March 2011. These Regulations lay down specific conditions and detailed procedures for the import of polyamide and melamine plastic kitchenware originating in or consigned from the People's Republic of China and Hong Kong administrative region, China.

Scientific analysis has shown such products to have been releasing primary aromatic amines (PAAs) or formaldehyde into food or food simulant[1] at levels exceeding the limits set down in EU legislation on food contact materials.

The European Commission has taken several initiatives with the Chinese control authorities and industry to increase their knowledge of EU legislation on food contact materials. Despite these initiatives, two audits by the Commission's Food and Veterinary Office (FVO) to China in 2009 identified serious weaknesses in the official control systems for plastic food contact materials imported into the EU.

Significant numbers of notifications and alerts have been received via the EU Rapid Alert System for Food and Feed (RASFF) following the FVO visits to China resulted in the Commission proposing additional control measures for the import of polyamide and

[1] Food simulants are materials intended to mimic the migration behavioural properties of foods. They are used in the laboratory to provide a conservative estimate of the amount of individual substances that may migrate from the packaging into food.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

melamine plastic kitchenware originating in or consigned from China. These were adopted in the form of the directly applicable EU Kitchenware Regulation which lays down import conditions and detailed procedures, and come into effect on 1 July 2011.

The breach of the 21 day rule is required to protect public health by ensuring that enforcement authorities have the necessary powers to carry out the additional controls required by Commission Regulation 284/2011.

Furthermore, Commission Regulation 284/2011 was not published formally in the Official Journal of the EU until 23 March 2011. The need for a reasonable period of formal public consultation on national Regulations and Impact Assessment and consideration of the responses greatly restricted the time available to bring the instrument into force. There were no responses to the public consultation in Wales.

Parallel Regulations are expected to come into force in England, Scotland and Northern Ireland no later than 1 July 2011.

It is for this reason the Minister for Health and Social Services has deemed that the Regulations should come into force in Wales on 1 July 2011, in line with the rest of the UK.

An Explanatory Memorandum has been prepared, and laid, together with these Regulations, in the Table Office.

A copy of this letter has been sent to David Melding, Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and to Stephen George, Clerk to the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Jane

**Jane Hutt AC / AM**

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: SF/LG/0047/11

Rosemary Butler AC
Y Llywydd
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Mehefin 2011

Dear/Annwyl Rosemary

**Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011 i rym. Bydd y gorchymyn hwn yn cael ei wneud ar 29 Mehefin ac yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2011.

O dan y Rheoliadau hyn, bydd modd gweithredu a gorfodi yng Nghymru ddarpariaethau Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 284/2011 a gyhoeddwyd yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 23 Mawrth 2011. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys amodau penodol a gweithdrefnau manwl ar gyfer mewnforio llestri cegin plastig polyamid a melamin sy'n tarddu o Weriniaeth Pobl Tsieina a rhanbarth gweinyddol Hong Kong, Tsieina neu sydd wedi'u hanfon oddi yno.

Mae gwaith dadansoddi gwyddonol wedi dangos bod y cynhyrchion hyn wedi bod yn rhyddhau mwy o aminau aromatig cynradd (PAAs) neu fformaldehyd i fwyd neu efelychwyr bwyd [1] nag a ganiateir gan ddeddfwriaeth yr UE ar ddeunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymryd sawl cam i wella gwybodaeth awdurdodau rheoli a diwydiant Tsieina am ddeddfwriaeth yr UE ar ddeunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd. Er gwaetha'r ymdrechion hyn, mae dau archwiliad gan Swyddfa Bwyd a Milfeddygol (FVO) y Comisiwn yn Tsieina yn 2009 wedi canfod gwendidau difrifol yn y systemau rheoli swyddogol ar gyfer deunyddiau plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd sy'n cael eu mewnforio i'r UE.

Rydym wedi derbyn nifer arwyddocaol o hysbysiadau a rhybuddion drwy System Rhybudd Cyflym yr UE ar gyfer Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid (RASFF) yn dilyn ymweliadau'r FVO â

[1] Deunyddiau y bwriadwyd iddynt ddynwared nodweddion profion ymfudiad bwyd yw efelychwyr bwyd. Fe'u defnyddir yn y labordy i roi amcan ceidwadol o faint o'r sylweddau unigol a all drosglwyddo o'r deunydd pecynnu i'r bwyd.

Tsieina. O ganlyniad, cynigiodd y Comisiwn fesurau rheoli ychwanegol ar gyfer mewnforio llestri plastig polyamid a melamin sy'n deillio o neu wedi eu hanfon o Tsieina. Mae'r rhain wedi eu mabwysiadu ar ffurf Rheoliad Llestri Cegin yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol ac sy'n cynnwys amodau mewnforio a gweithdrefnau manwl. Bydd yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2011.

Mae'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn diogelu iechyd cyhoeddus drwy sicrhau bod gan awdurdodau gorfodi'r pwerau y maent eu hangen i weithredu'r rheolaethau ychwanegol sy'n ofynnol dan Reoliad 284/2011 y Comisiwn.

Hefyd, ni chafodd Rheoliad 284/2011 y Comisiwn ei gyhoeddi'n ffurfiol yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE tan 23 Mawrth 2011. Oherwydd bod angen ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol o hyd rhesymol ar Reoliadau cenedlaethol ac Asesiad Effaith a bod angen ystyried yr ymatebion, nid oedd llawer o amser ar ôl i ddod â'r offeryn i rym. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yng Nghymru.

Disgwylir i Reoliadau cyfatebol ddod i rym yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 1 Gorffennaf 2011 fan bellaf.

O'r herwydd, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi penderfynu y dylai'r Rheoliadau ddod i rym yng Nghymru ar 1 Gorffennaf 2011, fel yng ngweddill y DU.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi ei baratoi, a'i gyflwyno gyda'r Rheoliadau hyn yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Jane

**Jane Hutt AC / AM**

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House